# Grantiau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru
# Y Gronfa Trafnidiaeth Leol, Y Gronfa Ffyrdd Cydnerth a'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn

# Canllawiau i Ymgeiswyr 2021-22

## Cyflwyniad

1. Diben y Canllawiau yw cadarnhau'r blaenoriaethau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi drwy'r Grant Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol, Y Gronfa Diogelwch Ffyrdd a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i awdurdodau lleol yn 2021-22.

2. Maent hefyd yn nodi'r broses y dylai awdurdodau lleol ei dilyn er mwyn cyflwyno ceisiadau sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau hynny a sut y bydd y ceisiadau hynny'n cael eu hasesu.

3. Bydd y cyllid yn cael ei roi yn uniongyrchol i'r awdurdodau lleol a bydd ar gael ar gyfer 2021-22 yn unig. Dylai awdurdodau lleol nodi nad oes modd i Lywodraeth Cymru roi ymrwymiad i gymorth grant wedi 2021-22.

4. **Yn eich ceisiadau mae'n rhaid ichi ddangos eich bod wedi dilyn Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Mae'r ffurflenni cais yn adlewyrchu dull WelTAG o weithio.**

   https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

## Deilliannau

5. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ceisio rhwystro problemau a defnyddio dull mwy cydlynol o weithio.

6. Mae Deddf 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i geisio cyflawni'r nodau ac amcanion llesiant ym mhob agwedd ar eu gwaith.

7. **Yn eich ceisiadau mae'n rhaid ichi ddangos eich bod wedi datblygu eich cynnig gan ddefnyddio y pum ffordd o weithio a bod eich cynnig yn manteisio i'r eithaf ar eich cyfraniad at y nodau a'r amcanion llesiant.**

   https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

8. **Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Newydd i Gymru** yw ein strategaeth ddrafft ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru. Mae'n pennu ein huchelgeisiau ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a'n blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae hyn yn sail i'r amcanion grant.

https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-11/dogfen-ymgynghori-llwybr-newydd_0.pdf

9. **Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan –** dyma ein strategaeth ddrafft ar gyfer datblygu seilwaith gwefru yng Nghymru. Mae'n pennu llwybr i sicrhau bod seilwaith ddigonol yn cael ei ddarparu yng Nghymru i fodloni anghenion y nifer y mae disgwyl iddynt ddefnyddio cerbydau trydan. Mae hyn yn cefnogi'r amcanion grant ar gyfer y Gronfa Drawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.

https://llyw.cymru/strategaeth-gwefru-cerbydau-trydan

10. Yn eich ceisiadau mae'n rhaid ichi ddangos sut y bydd eich cynigion yn bodloni pwrpas/ amcanion hyn ar gyfer y grant.

| Enw'r grant | Amcanion y grant |
|---|---|
| **Cronfa Trafnidiaeth Leol** | • Lleihau anweithgarwch economaidd drwy gynnig mynediad cynaliadwy i waith<br>• Gwella ansawdd bywyd yn benodol i'r rhai hynny sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig a gwledig trwy ddarparu trafnidiaeth gynaliadwy i gyfleusterau a gwasanaethau o bwys.<br>• Cysylltu cymunedau a rhoi mynediad at wasanaethau o bwys<br>• Gwella dibynadwyedd amserau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus<br>• Lleihau amseroedd teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus |
| | |
| **Cronfa Ffyrdd Cydnerth** | • Mynd i'r afael â'r tarfu a achoswyd i'r rhwydwaith priffyrdd gan dywydd drwg, yn enwedig i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus |
| **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn** | • Darparu seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau trydan, wedi'i dargedu at ddefnyddwyr sydd heb fynediad at barcio oddi ar y stryd.<br>• Darparu seilwaith gwefru mewn meysydd parcio cyhoeddus<br>• Pwyntiau gwefru cerbydau trydan – canolbwyntio ar ardaloedd sydd â'r posibilrwydd o gefnogi ystod o anghenion gwefru cerbydau |

| | |
|---|---|
| | • Darparu seilwaith gwefru i dacsis, cerbydau hurio preifat a bysiau<br>• Darparu Fflyd Gwyrdd ar gyfer tacsis, cerbydau hurio preifat a bysiau<br>• Darparu symudedd meicro (sef cymorth i gymryd rhan mewn treialon e-sgwteri yr Adran Drafnidiaeth, hyrwyddo e-feiciau ac e-feiciau cargo) |

**Cymhwystra i gael Cyllid Cyfalaf**

11. Ar yr amod y caiff y cyllidebau eu cadarnhau, mae disgwyl i gyfanswm y cyllid dangosol sydd ar gael ar gyfer cynlluniau y Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Ffyrdd Cydnerth a'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn ledled Cymru ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2021-21 fod oddeutu **£68,000,000**.

12. **Y Gronfa Trafnidiaeth Leol -** gwahoddir awdurdodau lleol i gyflwyno hyd at ddau gais newydd yn ogystal â cheisiadau ar gyfer cynlluniau sydd eisoes ar gael. Dylai awdurdodau lleol nodi'r drefn flaenoriaeth ar gyfer y ceisiadau hyn. Caiff cynllun sy'n bodoli eisoes ei ddiffinio fel un dderbyniodd ddyraniad grant yn 2020-21 gan y Gronfa Trafnidiaeth Leol neu'r Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol.

13. **Y Gronfa Ffyrdd Cydnerth** - gwahoddir awdurdodau lleol i gyflwyno hyd at un cais newydd yn ogystal â cheisiadau i gynlluniau sy'n bodoli eisoes. Caiff cynllun sy'n bodoli eisoes ei ddiffinio fel un oedd yn derbyn dyraniad grant yn 2020-21 o'r Gronfa Ffyrdd Cadarn.

14. **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn –** gwahoddir awdurdodau lleol i gyflwyno hyd at ddau gais. Dylai awdurdodau lleol nodi trefn flaenoriaeth y ceisiadau hyn. Dylai ceisiadau ar gyfer seilwaith gwefru wedi'i dargedu at ddefnyddwyr heb fynediad at barcio oddi ar y stryd nodi amcanion y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel (OLEV) ar gyfer y Cynllun Pwyntiau Gwefru Preswyl ar y Stryd (https://www.gov.uk/government/publications/grants-for-local-authorities-to-provide-residential-on-street-chargepoints) a dangos eu bod wedi gwneud cais am gyllid o dan y cynllun hwnnw hefyd.

15. Dylai pob cais ar gyfer cynlluniau teithio llesol newydd a chynlluniau sy'n bodoli eisoes gael eu cyflwyno i'r Gronfa Teithio Llesol.

16. Rhaid i bob cynllun gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a'i Chanllawiau ategol. Rhaid i gynlluniau sy'n cynnwys gwella priffyrdd, gwaith adeiladu, neu reoli traffig ddangos sut y maent yn cydymffurfio yn fwyaf arbennig ag Adran 9 o'r Ddeddf (Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol).

17. Wrth greu cynlluniau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried hefyd eu cyfrifoldebau o dan Adran 6 - Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau sy'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau mewn modd briodol, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cadernid ecosystemau. Mae hyn er enghraifft yn hynod berthnasol i gynlluniau trin

ymylon ffyrdd a phlannu fel rhan o brosiectau trafnidiaeth. Gallwch ddod o hyd i'r Arweiniad ar y Ddyletswydd yma:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-rhan-1-adran-6%20-dyletswydd-bioamrywiaeth-a-chydnerthedd-ecosystemau-canllawiau-adrodd-ar-gyfer-awdurdodau-lleol.pdf

18. Rydym yn annog awdurdodau lleol i gydweithio a chyflwyno ceisiadau rhanbarthol. Rhaid nodi'r awdurdod lleol sy'n arwain pob cynllun. Byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu i'r awdurdod lleol sy'n arwain. Ar gyfer ceisiadau newydd, ni ddylai awdurdodau lleol fynd dros yr uchafswm o geisiadau a nodir. Er enghraifft, pan fo hawl i ddau gais newydd yna caiff awdurdodau lleol gyflwyno dau gynllun drwy gais rhanbarthol, neu dau gais lleol, neu un o bob un.

19. Dylai awdurdodau lleol ymgynghori â'r cymunedau a'r rhanddeiliaid y mae'r cynllun yn effeithio arnynt gan gynnwys cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus ble y bo hynny'n berthnasol. Dylent adrodd ar y cynnydd yn dilyn yr adborth a gafwyd, neu, os mai newydd ddechrau mae'r cynllun, sut y byddant yn gwneud hynny, o fewn eu cais.

20. Byddwn yn ariannu gwaith, a gwaith ymlaen llaw, ar gyfer cynlluniau cyfalaf, a gellir cynnwys y gost o fonitro a gwerthuso'r cynllun. Bydd cynlluniau ble mai dim ond gwaith ymlaen llaw fydd yn digwydd hefyd yn gymwys i'w hystyried ar gyfer cyllid.

21. Wrth wneud ceisiadau ar gyfer cynlluniau newydd, ceir gwneud cais am brosiectau unigol neu am becyn o brosiectau cysylltiedig. Dylai ceisiadau am becyn o gynlluniau gynnwys rhestr wedi'i phrisio o brosiectau cysylltiedig yn nhrefn blaenoriaeth

22. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu hyd at y swm a ddyfernir ar gyfer y gwariant cymwys gwirioneddol ar gynllun sy'n cael ei dderbyn. Ni roddir mwy o gyllid na'r swm a ddyfernir a bydd gofyn i'r awdurdod lleol ysgwyddo'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw orwario posibl. Os bydd y costau'n uwch oherwydd amgylchiadau eithriadol a fydd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod lleol, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi cyllid ychwanegol.

23. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol gyflawni'r cynlluniau a gaiff eu derbyn yn unol â'r ceisiadau a gyflwynwyd ganddynt. Bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno adroddiadau ar gynnydd o bryd i'w gilydd drwy gydol blwyddyn ariannol 2021-222 a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y llythyr dyfarnu.

24. Caiff swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru ofyn am gyfarfodydd neu am ymweliadau safle i drafod cynnydd cynllun, fel y bernir yn briodol. Gall methu â dangos cynnydd priodol arwain at dynnu cynigion cyllid yn ôl ac at adennill oddi wrth yr awdurdodau lleol y cyllid a fydd wedi'i hawlio hyd at yr adeg honno.

25. Bydd cynlluniau sy'n cynnwys arian cyfatebol yn denu sgorau ychwanegol yn y broses arfarnu, a bydd cynlluniau sy'n dangos lefelau uwch o arian cyfatebol yn sgorio'n uwch.

26. Rhaid i geisiadau nodi'n glir lefelau a ffynonellau'r arian cyfatebol a fydd ar gael a chadarnhau y bydd ar gael i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2021-22. Caiff arian cyfatebol ddod o ffynonellau mewnol neu allanol a gall gynnwys amser swyddog.

**Telerau ac amodau y grant**

27. Ar wahân i amgylchiadau eithriadol drwy gytundeb ymlaen llaw, dylai'r cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer cyllid gwaith yn 2021-22 ddangos y bydd pob problem sy'n gysylltiedig â thir yn cael eu datrys a bod gorchmynion neu'r caniatád gofynnol wedi'u trefnu fel y gall y gwaith fynd yn ei flaen.

28. Er bod Llywodraeth Cymru yn barod i ariannu costau prynu tir, ni chaiff y cyllid ei ddarparu ar gyfer hawliadau iawndal sy'n codi o brynu'r tir neu o'r prosiect ei hun.

29. Mae darparu cymorth cyfalaf i gynlluniau yn amodol ar ymrwymiad awdurdodau lleol i dalu costau refeniw a cynnal a chadw yn y dyfodol.

**Monitro a Gwerthuso**

30. Rhaid i'r holl gynlluniau a mentrau addysgol gael eu monitro a'u gwerthuso. Caiff awdurdodau lleol gynnwys costau monitro am hyd at dair blynedd yn eu ceisiadau am gyllid, ond rhaid nodi'r rhain yn glir.

31. Rhaid monitro cynlluniau am dair blynedd ar ôl iddynt gael eu cwblhau a rhaid cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Bydd rhagor o ganllawiau'n cael eu darparu ar brosesau adrodd.

**Hyrwyddo**

32. Gallai ceisiadau gynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cynlluniau, gan gynnwys arwyddion, deunyddiau a digwyddiadau, am hyd at dair mlynedd wedi i'r cynllun ddod i ben. Mae'n rhaid nodi rhain yn glir.

**Dogfennau'r Broses Ymgeisio**

33. Dylai awdurdodau lleol gyflwyno'u ceisiadau gan ddefnyddio'r ffurflenni cais perthnasol. Bydd pob cynllun cael ei asesu drwy broses arfarnu.

34. Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith cyflawni'n cadw at yr amserlen ac am roi gwybod am unrhyw newid i'r rhaglen waith a/neu'r proffil gwariant.

35. Wrth gyflwyno ceisiadau ar gyfer cynlluniau cyfalaf, **rhaid cynnwys cynllun sy'n dangos cynifer o fanylion ag y bo modd am y cynllun hwnnw a hefyd fap sy'n dangos cynnwys y cynllun.** Rhaid hefyd gynnwys cyfeirnod grid AO Prydain.

36. Bydd y dogfennau ategol a ganlyn yn cael eu hystyried:

- Mapiau a chynlluniau yng nghyswllt ceisiadau cyfalaf (rhaid i'r mapiau a'r cynlluniau hyn ddangos y camau arfaethedig yn glir)
- O ran gwybodaeth ategol arall y teimlwch ei bod yn hanfodol i'r cais, rhaid cyflwyno cyn lleied ohoni ag y bo modd a dylai fod yn ddienw, lle y bo hynny'n berthnasol.

## Y Broses Arfarnu

37. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan banel o swyddogion Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol perthnasol fel y bo'n briodol.

38. Bydd y penderfyniadau terfynol ynglŷn â chyllid yn cael eu gwneud gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru.

39. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer y grantiau i'w gweld mewn dogfen wahanol – gweler y Meini Prawf Asesu ar gyfer y Grant – 2021-22.

**Cyflwyniadau**

**Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 29 Ionawr 2021**

Mae'n rhaid cyflwyno copi electronig o bob cais i'r cyswllt perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru sydd wedi'u rhestru isod drwy transportplanning@gov.wales

Ni dderbynnir gwybodaeth ychwanegol neu ddiwygiedig ar ôl y dyddiad hwnnw oni bai ei bod yn wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdani.

**Enwau Cyswllt Llywodraeth Cymru:**

| **Awdurdod Lleol** | **Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| Gogledd Cymru<br>Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam<br><br>Y Canolbarth<br>Ceredigion, Powys | Carol Willgoose<br>Prif Gynllunydd Trafnidiaeth<br>transportplanning@gov.wales<br>03000 625168 |
| Cymoedd y De-ddwyrain<br>Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Torfaen<br><br>De-orllewin Cymru<br>Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe, | Corinna James<br>Prif Gynllunydd Trafnidiaeth<br>transportplanning@gov.wales<br>03000 625278 |
| De-ddwyrain Cymru<br>Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Mynwy, Casnewydd, Bro Morgannwg | Alison Thomas<br>Pennaeth Integreiddio Polisi<br>transportplanning@gov.wales<br>03000 256765 |
| Cymru Gyfan<br>Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | Dafydd Munro<br>Pennaeth Datgarboneiddio Trafnidiaeth<br>transportplanning@gov.wales<br>03000 259226 |